ATODIAD 1

## Panel y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Cylch Gorchwyl

### Prif Bwrpas

Bydd Panel y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar y Cyd yn ystyried a rhoi barn ar wybodaeth sy'n angenrheidiol i lywio datblygiad dogfennau polisi cynllunio allweddol a fydd angen i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio un ai wneud penderfyniad amdanynt neu roi cyngor i'r Cabinet/ Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor. Bydd y dogfennau yn cynnwys rhai sy'n rhoi casgliadau am gyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriadau cyhoeddus (gweler swyddogaethau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd).

### Amcanion

Bydd Panel y Cynllun Datblygu Lleol yn:

i. Ystyried dogfennau drafft am gasgliadau gwaith sy'n angenrheidiol i fonitro'r Cynllun er mwyn llywio penderfyniad y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd am gynnwys yr Adroddiadau Monitro Blynyddol ac Adroddiad Adolygu'r Cynllun.
ii. Ystyried Canllawiau Cynllunio Atodol drafft sy'n gyffredin i'r ddau Gyngor, er mwyn adnabod dewisiadau neu faterion eraill i'w cynnwys ynddynt, cyn iddynt gael eu cyhoeddi fel sail i ennyn trafodaeth a chyfranogiad cyhoeddus amdanynt.
iii. Ystyried adroddiadau am astudiaethau, papurau testun a dogfennau drafft y Cynllun yn ystod y broses o'i ddiwygio, er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i wneud penderfyniadau am gynnwys y Cynllun diwygiedig.
iv. Ystyried dogfennau drafft yn gysylltiedig ag ymchwilio i greu rhestr ffi ardoll er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i gyflwyno argymhelliad i'r Cabinet/ Pwyllgor Gwaith.
v. Derbyn, a chymryd cyfrif o'r sylwadau gan y cyhoedd ac unrhyw grŵp/ fforwm budd-ddeiliaid yn ystod cyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriad statudol cyhoeddus.

### Mandad

- Bod yn grŵp mewnol o Aelodau Etholedig.
- Bod yn weithgor gweithredol, gyda swyddogaeth o hwyluso'r gwaith o greu consensws ar faterion allweddol.

### Cyfansoddiad

Bydd y Panel yn cynnwys pob un o Aelodau Etholedig o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (7 o Fôn a 7 o Wynedd).

ATODIAD 1

**Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

Caiff y Panel ei gadeirio gan Gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Bydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cadeirio yn absenoldeb y Cadeirydd.

**Cworwm**

Cydnabyddir na fydd pob Aelod sydd wedi'u hadnabod ar gael i fynychu pob cyfarfod a gynhelir yn ystod y broses. Fodd bynnag, er mwyn i gyfarfod o Banel y CDLl ar y Cyd gael ei gynnal, fe ddylid cael cworwm o bedwar Aelod Etholedig.

**Amledd**

Bydd Panel y CDLl ar y Cyd yn cyfarfod yn ôl yr angen, e.e. er mwyn rhoi cyngor yn ystod y camau allweddol yn y broses o baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol, yr Adroddiad Monitro Blynyddol, ddiwygiad o'r Cynllun, neu'r ffi ardoll. Er mwyn cynorthwyo'r Aelodau yn y grŵp, bydd dyddiadau'r cyfarfodydd hyn yn cael eu sefydlu gan roi cymaint o rybudd â phosib.

**Rhaglenni**

Rheolwr Polisi (Cynllunio) o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a fydd yn gyfrifol am gytuno ar y rhaglen mewn ymgynghoriad â'r Uwch Reolwr Cynllunio Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Cyngor Gwynedd) a Phrif Swyddog Cynllunio (Cyngor Sir Ynys Môn).

Bydd Aelodau'r Panel yn derbyn yr holl bapurau pum niwrnod cyn cyfarfodydd.

**Mecanwaith Adrodd**

Bydd cofnodion y Panel CDLl yn cael eu paratoi a'u cyflwyno ar raglen y cyfarfod dilyniannol.